***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Paragraff 11. (See end of Document for details)*

## ATODLEN 8

## YMDDIRIEDOLAETHAU

*Buddiannau buddiolwyr o dan ymddiriedolaethau penodol*

11 (1) Mae is-baragraffau (2) a (3) yn gymwys pan ddelir eiddo mewn ymddiriedolaeth o dan gyfraith yr Alban, neu gyfraith gwlad neu diriogaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig, o dan delerau sy'n golygu, pe bai'r ymddiriedolaeth yn cael effaith o dan gyfraith Cymru a Lloegr, yr ystyrid bod gan fuddiolwr fuddiant ecwitïol yn eiddo'r ymddiriedolaeth.

(2) Mae'r buddiolwr i'w drin at ddibenion y Ddeddf hon fel pe bai ganddo fuddiant ecwitïol yn eiddo'r ymddiriedolaeth er gwaethaf y ffaith na chydnabyddir unrhyw fuddiant o'r fath gan gyfraith yr Alban nac, yn ôl y digwydd, y wlad neu'r diriogaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

(3) Mae caffael buddiant buddiolwr o dan yr ymddiriedolaeth i'w drin fel pe bai'n ymwneud â chaffael buddiant yn eiddo'r ymddiriedolaeth.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 8 para. 11 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 81(2)**

**I2** Atod. 8 para. 11 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/34, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Paragraff 11.